# Gweithio ag unigolion i gynllunio, monitro ac adolygu ansawdd gwasanaethau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion ar gyfer cefnogi unigolion ac eraill i gynllunio, monitro ac adolygu ansawdd gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth i wella ansawdd a chanlyniadau gwasanaethau drwy greu amgylcheddau cynhwysol sy'n annog ymgysylltiad a chyfranogiad. Mae hefyd yn golygu defnyddio ymchwil i lywio prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i ddatblygu a modelu diwylliant o ymgysylltu a chyfranogi
2. hybu cyfleoedd i unigolion ac eraill gynllunio, monitro ac adolygu ansawdd gwasanaethau
3. defnyddio dulliau creadigol a hygyrch i hwyluso ac annog cyfranogiad
4. hwyluso a hybu perthnasoedd a chyfrifoldebau ar y cyd rhwng unigolion ac eraill
5. hwyluso a hybu gwaith grŵp effeithiol, deinameg a rheoleiddio emosiynol
6. grymuso unigolion ac eraill i rannu pryderon a chanlyniadau sydd o bwys iddynt, o'u safbwynt a'u profiadau personol
7. gweithio mewn partneriaeth i flaenoriaethu ac adolygu heriau cyfunol
8. gweithio mewn partneriaeth i gynllunio, rheoli ac adolygu ansawdd gwasanaethau
9. rhoi cyngor a chymorth ar ymchwil, methodoleg, casglu data, dadansoddi a chyflwyno canfyddiadau
10. cefnogi unigolion ac eraill i nodi dulliau a mathau o ymchwil
11. cynllunio a chwblhau ymchwil a chasglu data ag unigolion ac eraill
12. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i ddadansoddi data a chyflwyno canfyddiadau ymchwil
13. datblygu, profi a gwerthuso amrywiaeth o syniadau ac atebion i broblemau mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill
14. cefnogi unigolion ac eraill i wneud penderfyniadau a mireinio atebion
15. darparu gwybodaeth am adnoddau i gynllunio atebion a'u costio
16. gweithio mewn partneriaeth i gynllunio sut i weithredu, monitro ac adolygu atebion a chyflawni canlyniadau
17. cefnogi unigolion ac eraill i nodi a rheoli risgiau mewn cynlluniau
18. cefnogi unigolion ac eraill i weithredu, monitro ac adolygu cynlluniau yn erbyn canlyniadau y cytunwyd arnynt
19. cefnogi unigolion ac eraill i roi adborth ar y canlyniadau a gyflawnwyd, a mynd i'r afael â'r newidiadau sy'n ofynnol
20. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen i weithio ag unigolion i gynllunio, monitro ac adolygu ansawdd gwasanaeth
21. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth weithio ag unigolion i gynllunio, monitro ac adolygu ansawdd gwasanaethau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae creu a modelu diwylliant o ymgysylltu a chyfranogi
2. pam ei bod yn bwysig cynnwys safbwyntiau a phrofiadau bywyd unigolion ac eraill wrth gynllunio, monitro ac adolygu gwasanaethau
3. pam y dylid cynnwys unigolion ac eraill ar bob cam o'r broses gynllunio, monitro ac adolygu
4. dulliau creadigol, cynhwysol a hygyrch a all gefnogi ac annog cyfranogiad
5. dulliau ar gyfer hybu perthnasoedd a chyfrifoldebau wrth weithio mewn partneriaeth
6. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth weithio ag unigolion i gynllunio, monitro ac adolygu ansawdd gwasanaethau
7. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma wrth gynllunio, monitro ac adolygu ansawdd gwasanaethau
8. ffyrdd o rymuso a galluogi unigolion ac eraill i rannu eu pryderon a'u profiadau
9. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth gynllunio, monitro ac adolygu ansawdd gwasanaethau
10. dulliau ar gyfer diffinio a fframio problemau
11. sut mae sicrhau bod ymchwil yn foesegol, yn ddiogel, yn ddilys, yn gyfreithlon, yn dryloyw, yn gynhwysol ac yn barchus
12. ffyrdd o nodi dulliau a mathau o ymchwil
13. pwysigrwydd datblygu cynlluniau ymchwil a chasglu data perthnasol
14. sut mae dadansoddi data, cael gafael ar wybodaeth berthnasol, a chyflwyno canfyddiadau mewn fformatau sy'n addas ar gyfer y pwrpas a'r gynulleidfa darged
15. dulliau creadigol i gefnogi cynhyrchu syniadau a gwerthuso atebion
16. pam ei fod yn bwysig datblygu a phrofi amrywiaeth o syniadau ac atebion
17. sut mae nodi'r asedau a'r adnoddau sydd ar gael, a mynd i'r afael â heriau o ran adnoddau
18. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i gynllunio, monitro ac adolygu ansawdd gwasanaethau
19. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar y gwaith o gynllunio, monitro ac adolygu gwasanaethau
20. dulliau o gael adborth ar ganlyniadau y cytunwyd arnynt a pham ei fod yn bwysig
21. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gynllunio, monitro ac adolygu

ansawdd gwasanaethau

22. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen i weithio ag unigolion i gynllunio, monitro ac adolygu ansawdd gwasanaethau
23. theorïau sy'n berthnasol i weithio ag unigolion i gynllunio, monitro ac adolygu ansawdd gwasanaethau
24. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer gweithio ag unigolion i gynllunio, monitro ac adolygu ansawdd gwasanaethau
25. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gynllunio, monitro ac adolygu ansawdd gwasanaethau
26. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth weithio ag unigolion i gynllunio, monitro ac adolygu ansawdd gwasanaethau, a sut i fynd i'r afael â hyn
27. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth weithio ag unigolion i gynllunio, monitro ac adolygu ansawdd gwasanaethau

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD333

Gweithio ag unigolion i gynllunio, monitro ac adolygu ansawdd gwasanaethau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD333 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Cynllunio, Monitro, Adolygu Ansawdd Gwasanaethau, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |